



Ein cyf/Our ref MA-L-JJ-0731-19

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

27 Ionawr 2020

Annwyl Elin,

BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU)

Ar 18 Hydref 2019 anfonais y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) atoch er mwyn penderfynu a oedd o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol.

O dan Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae angen cydsyniad Gweinidogion perthnasol y Goron ar gyfer rhai darpariaethau yn y Bil. Mae'r rhain yn ymwneud â swyddogaethau swyddogion cofrestru etholiadol a dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn galluogi awdurdod lleol i wneud cais i lys ynadon i garcharu dyledwyr treth gyngor. Nid oedd y cydsyniadau hynny wedi dod i law ar yr adeg yr anfonwyd y Bil atoch.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru bellach wedi ysgrifennu at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i roi cydsyniad mewn cysylltiad â'r darpariaethau sy'n dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn galluogi awdurdod lleol i wneud cais i lys ynadon i garcharu dyledwyr treth gyngor.

Yn ogystal, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2019, a wnaed gan y Cyfrin Gyngor mewn cyfarfod ar 17 Rhagfyr, wedi dileu'r mater cymhwysedd mewn cysylltiad â swyddogaethau swyddogion cofrestru etholiadol.

*In gywir,
Mark*

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.